

Atgofion Mary Pritchard o'r flwyddyn 1932

Gwilym Morris Jones

Merch fferm o ardal Betws Garmon oedd Mary Pritchard fy mam, cyn priodi a John Awstin Jones fy nhad ym mis Gorffennaf 1932. Mewn llyfr nodion, neu'r 'copi bwc', a gadwai yn ystod y Saith degau, mae hi'n sôn am yr adeg nól yn 1932 sut y bu patrwm ei bywyd newid yn gyfan gwbl ar ôl priodi a symud i fyw yn y Waunfawr, sef pentref a chymdeithas wahanol iawn i'r hyn yr oedd wedi arfer iddo ym mro ei mebyd ym Metws Garmon.

Dyma ddyfyniad o'r 'Copi Bwc' hwnnw:

O'r 'Copi Bwc'*

Gwyrddlas a dibrofiad iawn oeddwn i pan y dois yn wraig ifanc 22 oed o Fetws Garmon i'r Waunfawr ar ôl priodi yn y flwyddyn 1932. Trawsblaniad o rhyw gwta dair milltir, ond ffordd o fyw pur wahanol i'r hyn yr oeddwn wedi arfer adre ar y fferm. Becar oedd John y gwr wrth ei alwedigaeth, yn pobi bara mewn becws bychan ynghanol y pentref, ac yn fuan deuais innau yn rhan o weithgareddau'r becws a chael fy hyn oherwydd amgylchiadau yn cyfarfod a phob math o bobl. Roedd hyn yn adeg o ddirwasgiad, a llawer yr adeg honno ar y *dole*, ac yn gorfod byw ar ychydig ac yn aml iawn yn brin.

Rwyf yn cael fy hyn yn y becws un prynhawn am y tro cyntaf. Roedd John wedi dweud wrthyf am ddod i lawr yno ar ôl hanner dydd, ac y buasai'r becar, sef 'Jac Becar', fel ei adwaenid, yn fy rhoi ar ben ffordd ynglyn a dangos ymhle yr oedd pethau a gwahanol brisiau ac ati. Roedd John ei hyn allan yn danfon bara o gwmpas yr ardal efo'r fan a cheffyl ac ni fyddai wedi gorffen tan gyda'r nôs. Roedd Jac Becar a Wil y prentis yn fy 'nisgwyl, ond yr unig help a gefais oedd dangos rhestr o brisiau bara i mi. Grôt am dorth fawr 2lb, dwy a dime am dorth fach wen ac un frown, a cheiniog yr un am bob teisen a bynsen. Estynodd Jac dun i mi ac ychydig o arian mân ynddo. "Pres newid", meddai, ac yna diflannodd Wil y prentis ac yntau drwy'r drws gan fy ngadael ar ben fy hyn i wneud y goreu o bethau. Dim ond yr wythnos cynt yr oeddwn wedi priodi, a dyma fi yn wraig ifanc hollol ddibrofiad yn cael fy hyn mewn amgylchiadau nad oedd gennyf yr un syniad amdanynt. Gwnai fy swildod fi yn nerfus ofnadwy gyda phobl yn galw yn y becws am fara, blawd a burum ac ati. Roedd llawer ohonynt yn hollol ddieithr i mi, ac eraill roeddwn ond eu hadnabod o ran eu gweld, merched ran amlaf, a gwragedd i chwarelwyr oedd y mwyafrif. Teimlwn yn lletchwith gyda'r holl waith anghyfarwydd, ac ofnwn yn fawr y cawn fy meirniadu. Ni bu'r diwrnod yn un prysur o lawer ac yn hwyr y pnawn daeth Elin Jones, fy mam-yng-nghyfraith ataf, a dywedai hi wrthyf enwau y gwahanol gwsmeriaid, ac wrth gwrs roedd hynny yn help mawr i mi. Daeth geneth oddeutu deg oed i'r becws i nôl saith pwys o flawd a dwy owns o furum, i r'yw Mrs Holbrook oedd yn byw i lawr y lôn. Wedi pwysu'r blawd a'r burum a gwneud y cownt, talodd yr eneth i mi, ond daeth yn ei hôl toc gan ddweud, "Mae Mrs Holbrook yn gofyn faint ydi saith bwys o flawd"? Gwnes innau y cownt wedyn, a'i gael yn union yr un faint.

Yna gofyn i'r eneth ei wneud efo mi, a hithau'n ei gael yr un fath a mynd oddi yno yn fodlon. Wyddwn i ddim ar y pryd bod saith bwys o flawd i'w gael yn rhatach. Roeddwn wedi codi am dano fesul pwys, ond be wyddwn i, doedd neb wedi dweud yn amgenach wrthyf. Pris blawd yr adeg honno oedd punt y sách, neu gini am sachaid mawr140lb.

Ambell dro byddai ysbeidiau hirion heb neb ddod ar gyfyl y becws a minnau yno fel ci wrth dennyn yn diarthu. Ar adegau felly awn ati i lanhau tipyn ar y llé. Roedd y becws wedi ei rannu yn ddwy ystafell, ac yn yr un lle roedd y popty roedd teils coch a du ar y llawr a byddwn yn cael pleser mawr o'u golchi. Llawr pren oedd i'r rhan arall a fedrwn i wneud dim a fo ond trio sgwrio tipyn arno a'i sgubo, ond fedrwn byth ei gael i edrych yn lán. Roedd slabiau o gerrig glas o'r chwarel o flaen y drws, ac ar ddiwrnod braf awn ati'n ddyfal i'w golchi. Cawn ddrwg gan John am wneud hyn, rhag i bobl lithro a syrthio arnynt. Roedd y becws yn le diflas sobr i fod ynddo am oriau. Nid oeddem yn cau dan wyth o'r gloch y nós, a byddwn eisiau cerdded i fynny'r lón dywyll i Ty Gwyn, a chludo siwrnai o ddwr glán i fynny efo mi o'r tap yng ngwaelod y lón. Nid oedd golau trydan mewn amryw o dai bryd hynny, felly roedd y ty yn dywyll ac oer heb dán. Rhaid oedd goleuo'r lamp a chynnau'r tán a disgwyl iddo afael cyn rhoi'r tecell arno, a byddai yno fwg difrifol yn dod lawr o'r simdde. Byddwn yn falch ofnadwy pan fyddai John wedi cyrraedd adre o fy mlaen a minnau'n gweld golau yn y ty ac yntau wedi cynnau'r tán, ond pur anaml y digwyddai hynny.

Elin Huws

Bob bore deuai Elin Huws i ben y clawdd i alw. Roedd Elin Huws yn byw yn y ty cyntaf o dri ar y gwastad a'r becws, a byddai bob amser eisiau torth a honno wedi llosgi. Wnai'r dorth ddim o'r tro os na byddai crystyn du arni. Roedd ganddi bob amser lawer i ddweud wrthyf. Wedi bod yn gweini yng Nghastell Cidwm pan yn ferch ifanc meddai, ac wedyn priodi Wmffra Huws a byw yn y Cwrt. Roedd wedi magu ei phlant yn ardal Salem, ac roedd y rhai fenga ohonynt yr un oed a Jane a Bob fy chwaer am brawd hynaf, ac yn mynd i'r ysgol a'u gilydd. Cefais lawer o sgysiau gyda Elin Huws dros y clawdd, a gresyn na feddyliais ar y pryd am gofnodi ei holl ddywediadau a'i hanesion difyr, a adroddai am bethau a gofiai amdanynt. Roedd hi erbyn hyn yn hen wraig ac yn un hynod fel cymeriad. Gwisgai het frown dros ei phen a'i thalcen, a siól dros ei gwar hefo brooch yn ei gau dan ei gén, a barclod wen laes am ei chanol wedi ei wneud o fag blawd lliain o'r becws, a chloesiau am ei thraed. Sgwrsiai Elin Huws gyda phawb, boed nhw'n ddieithr, yn Gymry neu Saeson fel eu gilydd. Edrychid arni yn y pen yma o'r ardal fel rhan o'r Waun. Arferai estyn gwpanaid o de i mi bron bob bore dros y clawdd a dweud wrthyf am ei yfed tra roedd yn boeth. Diolchwn iddi am dano ac awn a'r gwpan i'r becws o'r golwg. Fedrais erioed ei yfed. Yn un peth, doedd y gwpan ddim yn un gynhesol o gwbl, crac du o'r top i'r gwaelod a'r te yn colli yn ddyferion drwyddo. Roedd y te i'w weld yn gryf ac yn llugoer. Tafwn y té yn syth i'r twll lludw dan y popty a golchi'r gwpan ac aros am ychydig gan gymryd arnaf fy mod wedi ei yfed. Byddai'r hen wraig bob amser wrth ei bodd yn canmol wrth bobl fel y byddai'n rhoi paned i mi bob bore dros y clawdd. Roedd ffenest fechan yng nghefn y becws a gallwn weld lawr at yr Afon Wyrfaï a

Chlogwyn Cynant ohoni. Ond yn amlach na pheidio, byddai Jac Becar wedi plygu'r bagiau blawd gwág a'u rhoi ar silff y ffenest fel na allwn weld dim.

Roedd gardd gefn Elin Huws tu ól i'r becws, ac yn union o dan y ffenest roedd ganddi dwb golchi mawr ar stand, a llawer gwaith y bum yn gwrando arni yn canu wrth olchi dillad. Emynau a ganai bob amser. Roedd ganddi lais nodedig o dlws a ffordd nodedig o'u canu. Llusgo ychydig weithiau, tipyn o fynd dro arall a slyrio ychydig wedyn. Rwy'n cofio ei chlywed un bore yn canu a thafodi bob yn ail. 'Yn-y-dyfr-', "Wmffra? dos i dorri pricia tán"! -'oedd-mawr-a'r-tonn-au', "Wmffra?, torra bricia!, mi rwy'ti'n ddiog fel ffwlbart"! -'pwy-a-ddeil-fy-mhen-i'r-lan'. "Wmffra? ma' pobol yn son amdanat ti yn ddiog, torra bricia"! Ambell dro deuai Dafydd y mab i'r ardd, a rhoi yntau donc ar ganu efo'i fam. Llais bás fel Paul Robeson ganddo a minnau'n cael pleser o'u clywed heb iddynt wybod. Chanai Dafydd ddim pe tae rhywun yn gofyn iddo reit siwr. Clywais hanes am Elin Huws pan oedd yn byw yn 'Gwyrfai Teras', fel yr oedd dau ddyn oedd wedi eu codi i hel casgliad at achos da yn dynesu at y ty yn clywed Elin Huws yn fflamio ac yn rhegi'r plant, ac yn addo pob cosb arnynt. Roedd y dynion mewn pembleth, un a'i troi yn ól ynteu mentro at y drws fyddai orau. Ond yno yr aethant ac wedi curo ar y drws, daeth tawelwch. Yna, llais Elin Huws i'w glywed yn dweud yn dyner, "Wel rwan y mhlant i, deudwch eich pader efo eich gilydd, dyna ni blant da"!

Sara Jones

Yn yr ail dy roedd Sara Jones yn byw ar ei phen ei hyn, a deuai hithau i ben y clawdd i alw arnaf pan fyddai arni eisiau torth, ac os na fyddwn yn ei chlywed, taflai gerrig at y drws i dynnu fy sylw. Un braidd yn sarrug oedd Sara Jós. Hen ddynes filain ac anymunol a llais crás fel cigfran ganddi. Fedrwn i yn fy myw glosio ati. Roedd ganddi wallt hardd, yn donnau trwchus, a byddai bob amser yn gwisgo cép ddu laes a honno'n cyrraedd hyd at ei chrymogau [*sic*. crimogau]. Arferai ddod a'i chinio i ben y clawdd i mi ei roi yn y popty. Dysgliaid o bwddin reis ran amlaf, a phan ddeuai'r bwtsiar, byddai ganddi ddysgl enamel efo darn o gig, a dwy neu dair o datws a nionyn mewn dwr ynddo. Mi fyddai ei bawd bob amser o'r golwg yn y bwyd. Roedd ganddi fawd pur fawr a chraith lydan ar ei ben yn ei wneud i edrych braidd fel pawen, ond ni fentrais erioed ofyn iddi beth oedd yn cyfri amdano. Dywed John Leathley ei nai mai gwneud niwed wrth ladd ceiliog hefo bwyell wnaeth hi.

Miss Morgan

Yn y trydydd ty yr oedd Miss Morgan yn byw. Roedd honno yn gymeriad mor hynod a'r un erioed. Ni's gwelais hi erioed yn dod ymhellach a phen y drws, a dim ond ei hanner fyddai yn y golwg yr adeg hynny. Byddai ganddi ddigon o dwrw ar adegau, a galwai yn aml ar Elin Huws a hynny mewn llais main. "Ee-lin (sóh-sóh) Huu-wws!(dóh-dóh)!, dowch yma i hel y llygod allan"! Yna deuai Elin Huws allan o'r ty dan waeddi. "Be di matar yn fanna nenw'r tád"! "Llygod yn rhedag o nghwmpas i ymhobman, dowch yma i'w hel nhw allan"! Cydiai Elin Huws mewn brws llawr a mynd yno gan ddechrau waldio'r llawr a'r dodrefn a churo ei thraed nes bod ei chlociau yn clecian. "Allan a chi dacla"! gwaeddai, gan haldiwaro a

sgyrnygu. “Ma' nhw wedi mynd i gyd rwan, mi gewch lonydd am sbel, dwi wedi dychryn digon arnyn nhw”! Rhen Fiss Morgan yn piffian chwerthin, ac Elin Huws yn dod oddi yno gan dafodi rhwng ei dannedd, “Neno'r tad, does byd ar y ddynas d'wch yn creu y fflashwn styrbans, yr hen gybiban iddi”! Mi ddaliodd Sara Jós gath y becws unwaith a'i chau yn nhy Miss Morgan, gan feddwl y buasai hynny yn ei phlesio. Roedden yn methu a gwybod lle roedd y gath wedi mynd nes i rhywun ei gweld yn ffenest llofft Miss Morgan. Awd i holi yn ei chylch, ond roedd Sara Jós yn gwadu nad aeth a'r gath ac nid ein cath ni ond un Miss Morgan oedd hi. Elin Huws waredodd y gath drwy adael y drws yn agored. Roedd y greadures wedi ei chau i mewn am ddyddiau a gellir dychmygu sut olwg oedd ar ei hól.

Wil Bach Penclip

Wrth fynd ar fy ffordd adre ar ól cau un noson, cefais brofiad brawychus a hegr. Cerdded yr oeddwn i gyfeiriad Maes Bach pan glywais rhywun yn dod o'r cyfeiriad arall i'm cyfarfod. Roedd yn dywyll fel y fagddu a dim dichon gweld dim. Roedd gan y dyn hwnnw ddigon o dwrw, gan y gwisgai 'sgidiau hoelion mawr a cherddai yn herclyd, ond gan mai wellingtons rwber oedd gennyf i, ni wnawn swm o gwbl. Meddyliais fy mod wedi cadw ddigon pell oddiwrtho, ond yn erbyn ei'n gilydd yr aethom. Tarewais fy nhalcen yn erbyn ei dalcen yntau gyda'r fath rym, nes bod ein dau yn bagio yn ddihowld yn ei'n holau. Meddylw'n y buaswn yn siwr o ddisgyn ar wastad fy ngefn a theimlwn fy mreichiau yn chwifio wrth geisio cadw'r balans. Clywn y dyn yma yn gwaeddi, 'HY-HEI-HEI!' wrth iddo yntau fagio yn ei ól, ond roeddwn wedi dychryn gormod i waeddi, a phan sadias ddigon i fynd yn fy mlaen, clyw'n y dyn yma yn ymbalfalu wrth y clawdd ac yn fy rhegi, 'Y- D-I-AA-W-L'! Roedd yntau mae'n siwr wedi brifo ei dalcen ac wedi dychryn mwy nac yr oeddwn innau, gan nad oedd wedi clywed swm fy nhroed nac wedi yngan gair. Pan agorais ddrws y ty teimlwn reit ryfedd, roedd fy mhen yn brifo ac wrth edrych yn y drych, roedd lwmp reit fawr wedi codi wrth ben fy llygaid. Bu'm yn dyfalu llawer pwy allasai fy ngwrthdarawydd fod. Mae'n rhaid nad oedd o yn neb tal, achos fe deimlais ei anadl ar fy ngwyneb yn y glec. Bu'm yn gwranddo llawer ar swm traed pobl ar ol hynny, a chredaf mai Wil bach Penclip oedd y creadur anlwcus. Roedd Wil bach a Lisi ei wraig a'u dwy ferch, Katie May a Gwyneth, yn byw yn yr ail dy o'r tri Penclip, oedd gyferbyn yn union a'r becws. Ni welais erioed dy a chymaint o bobl yn troi iddo. Roedd y llé fel 'left lygej offis'! A'i pobl yno i aros am y bws, mochel rhag y glaw, a chadw parseli ac ambarelau a chotiau. Roedd Wil bach yn gymeriad hoffus gan bawb, yn siriol a llawen bob amser. Roedd yn fychan o gorff a'i olwg yn ddrwg, a daliai bapur newydd a'i lyfr emynau o fewn modfedd i'w drwyn. Yn chwarel Cefn Du y gwaethiai ond ar y 'dole' y cofiaf amdano am flynyddoedd gan i'r chwarel fod wedi cau cyn i mi ddod yma ar ól priodi. Gwnai gymwynas a phawb hyd y gallai. Bu am ysbaid yn danfon teligrams o'r Post, ac un tro roedd wedi bod a theligran ym 'Mryn Tirion ar ffordd Cefn Du. Saeson newydd ddod yno i fyw oedd rhain. Roedd eisiau atebiad i'r teligran, a phan r'oddodd Wil y genadwri i James Williams y Post a swllt i dalu'r draul, sylwodd y Postfeistr bod pymtheg o eiriau yn y teligran ac na fuasai swllt yn ddigon. “Wel Wiliam bach, mae yma bymtheg o eiriau, a dim ond deuddeg ga'i ro'i am swllt”! “Wel”, meddai Wil bach wrtho, “Merchaid sy'n byw yno, ac mae

merchaid yn ca'l siarad pymthag y dwsin yn tydyn"! Ca'i Wil bach ambell 'odd job', ar dywydd mawr i glirio'r eira, ond roedd yr hen greadur yn dioddef yn arw oddiwrth grydcymalau, ac erbyn y diwedd, caethiwys iawn oedd byw iddo. Roedd wedi cwmanu'n arw yn y blynyddoedd diwethaf, a cherddai'n fusgrell a llafurus ar bwys ei ddwy ffon. Byddai Lisi gwraig Wil yn arfer prynu bara ar yn ail a phobi o wythnos i wythnos. Arferai Lisi dalu ar ddydd Gwener ar ól tál y 'dole'. "Talu'r hén a dwyn y newydd", fyddai'n ddweud. Pan fyddai Lisi yn pobi, deuai i'r becws yn y bore i nól y blawd a'r burum ac yn dweud, "Ma' Wil wedi aros yn y gwely bora 'ma i'w gadw yn gynnas nes bydda inna wedi gorffan tylino'r toes. Mi fyddai'n rhoi'r badall yn y gwely a'r dillad drosti a fydd y toes fawr o dro yn codi ac yn barod i'w grasu". Ymhen sbel deuai Lisi a'r toes i'r becws mewn cás gobennydd, a byddai bob amser eisiau ei rannu yn dorthau a'i fowldio cyn ei grasu.

Toes, crasu a theisen blât

Deuai llawer o bobl a thoes i'w grasu yr adeg honno, a byddai gwahaniaeth mawr yn ansawdd y gwahanol doesau. Gwnai Mrs Oliver does da. Cawn rai eraill fel clatsh a byddai Jac Becar yn diawlio. Byddai'r toes gan ambell un wedi codi cymaint nes rhwygo'r cwdyn a'i daliai. Cawn geiniog y dorth am yr holl drafferth, a thalai pawb yn ddilol, hynny ydi ond am rhen Ann Jós Graianfryn. Roedd honno bob amser yn gecrus a chás. Soniai fel byddai ei chwaer yn cael crasu dwy dorth am geiniog yn Llanberis, a thalu dan dannod. Minnau'n dyheu am ddweud wrthi am fynd a'i thoes i Lanberis y buasai'n talu'n well iddi, ond doedd ddim digon o blwc ynof. Deuai rhai a'u teisenau plát a'u cigoedd i'w crasu a'u rhostio at y Sul, a byddai cyfarwyddiadau i ganlyn rhai am beidio crasu gormod, neu grasu yn o léw. Byddai Jac Becar yn troi llawer o'r teisenau plát er mwyn i'r súdd redeg ohonynt cyn eu crasu, neu fe fyddai stomp garw ar y popty. Yma eto y gwelwyd pwy oedd yn dda a phwy oedd heb fod cystal am wneud teisen. Arferid rhoi darn bach o bapur ac enw'r perchenog ar bob peth a ddygwyd i'w grasu. Unwaith roedd Jac Becar wedi anghofio tynnu'r papur oddi'ar deisen Kate Robaitsh, Bryn Goleu, a'r ffordd y byddai o yn ei hadnabod oedd wrth ei blas enw, 'Cadi Bach'. Dyna'r enw oedd ar y deisen pan dynnwyd hi o'r bag papur ym Mryn Goleu. Achosodd hyn gryn helynt. Katie Robaitsh yn dweud y drefn ac yn peidio a dod ar gyfyl y becws am sbel wedi digio. Un checrys a difeind efo'i thalu oedd Katie Robaitsh bob amser. Arferai Ann Robaitsh, gwraig 'Sam Sawdl Sydyn', ddod i'r becws efo pwced i nól dwr poeth ar bnawn Sadyrnau. Hi fyddai'n glanhau yr eglwys yr adeg honno, a byddai angen y dwr poeth i olchi'r llawr yn barod ar gyfer y gwasanaeth fore Sul. Hefyd, gwelais eraill ar adegau yn dod o'r eglwys i nól dwr poeth ar gyfer rhyw gyfarfod neu ddigwyddiad arbennig.

Dic Tan'Rallt

Am y clawdd i'r ochr dde a'r becws roedd siop bwtsiar Richard Griffith, ('Siop Dic Tan'Rallt'), ac fel 'Dic' yr adwaenid ef gan bawb. Byddai amryw o drafeilwyr yn galw yn aml yn y becws, a byddai rhai ohonynt yn anhawdd ofnadwy i'w troi heibio. Un felly oedd y dyn oedd eisiau gwerthu peiriannau at wneud teisanau a sosej. Er mwyn cael ymwarded ac ef, dywedodd John wrtho ei fod yn deall bod Dic Tan'Rallt a'i bartner, Johnnie Jones, Ty'n Gadlas, yn selog am gael injan gwneud sosej, ac yno aeth

y dyn heb oedi i geisio gwneud sél. Johnnie Ty'n Gadlas oedd yn y siop ar y pryd. Roedd y dyn yn daer arno brynu, ond mynnai Johnnie mai Dic oedd y boss, ac nad oedd yno ar y pryd, ac a wnelo ef ddim byd a phrynu. Fe stelciodd y dyn o gwmpas, a phan gyrhaeddodd Dic, aeth y trafeliwr ato yn awyddus a cheisio ei berswadio i brynu. Wedi gwrandio am ychydig a syrffedu ar ei batro, dywedodd Dic, “Di-a-a-wl, whai go iw and asg ddy bos ofyr thér”! gan gyfeirio at Johnnie ei bartner. Hwnnw yn chwyrnu ar Dic. “Damia chdi gythral! Tydwi'n trio ca'l gwarad ar y diawl ers meitin, mae o'n fan 'ma fel barn yn trio hwrjo rhyw hen injan gneud sosej i mi, a finna'n trio deud na dy fusnas di ydio”! Roedd y dyn wedi deall eu bod yn ceisio osgoi prynu'r peiriant, ac er mai cymysgfa o Gymraeg a Saesneg y siaradant i'll tri, roedd o beth bynnag yn benderfynol o'i gwerthu. O'r diwedd trwy daerineb ddibendraw, llwyddodd i'w perswadio iddo adael yr injan ar dreial. Roedd ganddo un ail law yn digwydd bod yn y car meddai. Fe ddaeth Johnnie Ty'n Gadlas i'r becws toc, a meddai wrth John Awstin. “Nostyn? (Roedd yn arferiad bryd hynny ddweud y lythyren 'N', o flaen ambell air neu enw fel, 'Nerpwl', am Lerpwl fel engraifft), “Wyddost di be ydi'r hen foi 'ma sy'n trio gwerthu rhyw injan gneud sosej? R'arglwydd fedrai ddim symud na mae o wrth fy nhin i, fedrai ddim ca'l mynd i droi clós na dim gin y diawl”! Y gyda'r nós honno, aeth Dic Tan'Rallt a Johnnie Ty'n Gadlas, ati i wneud sosej yn yr injan, ac yno yr aeth John Awstin, James Llywelyn Williams y Post, John Griffith, Bae Colwyn, a Gilbert Williams Rhostryfan i weld y perfformiad. Dic yn un pen yn llenwi'r injan drwy wthio'r cig i mewn efo darn o bren, a Johnnie yn edrych ar ol y pen arall lle deuai'r cig allan yn sosej. Tra roedd hyn yn mynd ymlaen, siaradai y dynion eraill a chaent lawer o hwyl a chwerthin. Canlyniad i hyn oedd i Dic wrth geisio gwrandio ar yr hyn a'i ymlaen anghofio wthio'r cig, a chethrai Johnnie arno, “Canlyn arni bendith tad”! Erbyn hyn roedd y sosej yn bob stumiau, rhai yn hirfain, a'r lleill yn dew dew, a Dic yn pystachu wrth geisio rheoli'r cig efo'r pren. Chafwyd fawr o lwyddiant ar wneud sosej, a gwrthod yr injan fu'r hanes yn y diwedd. Roedd Johnnie Ty'n Gadlas wedi amau yn gryf bod a wnelo John a gyrru'r dyn ato.

Chwarae Hunt

Ar y twllnos, byddai'r plant y Waun yn chwarae 'hunt'. Byddant yn chwilio am rhywun a fyddai wedi ymguddio, ac roedd o gwmpas y becws yn le wrth eu bodd, ond byddant yn niwsans garw i mi. Mi wyddwn na atebai i mi ffraeo a nhw, wnawn i ddim ond eu tynnu yn fy mhen. Felly un noson er mwyn cael tipyn o heddwch, gwyliais fy nghyfle a lluchais lechen ar hyd tó sinc siop bwtsiar Dic Tan'Rallt, nes bod y swm yn diasbedain dros y llé. Mewn eiliad, roedd Johnnie Ty'n Gadlas yn rhedeg allan a chyllell fawr yn ei law yn gweiddi a rhuo ac am ladd y plant. “Adra a chi y diawliad”, a hwythau yn sgrealu i bob cyfeiriad oddi wrtho, ac o hynny 'mlaen, cefais innau lonnydd oddi wrthynt.

Y Tyllau Marblis

Dro arall, arferai'r plant ddod i chwarae ar yr iard o flaen y becws. Gwnant dyllau adeg chwarae marblis, a phan fyddai wedi bwrw, byddai'r tyllau yn llawn o ddwr. Un tro roedd Charles Owen, gwr uchel iawn ei barch yn y pentref yn mynd o'r becws ar yr un amser pan roedd y Parch D.J.Lewis, y gweinidog yn dod yno. Yn sefyll wrth

siop y Post yr oedd Dafydd Owen, Gwynant. Hen lymbar pryfoclyd a chellweirus oedd Dafydd Owen bob amser. Gan bod gwrych yn cuddio'r tyllau o'i olwg, yr hyn a welodd oedd Charles Owen yn rhoi naid a sbonc, ond ni wyddai ma'i i arbed mynd i'r tyllau a wnai, ac yn yr eiliad, yn glanio ym mreichiau y gweinidog ac yn ysgwyd ei law yn galonnog. Edliwiai Dafydd Owen iddo, "Ond dwyt ti yn hen ffalsiwr yn rhedag i gyfarfod y gweinidog i gael ysgwyd llaw efo fo". Roedd Charles Owen yn filain am hyn ac aeth yn dipyn o ddadl rhwng y ddau. Dafydd Owen yn galw arnaf innau. "Mi gwelsoch o yn do Musus Jós, yn rhedag i gyfarfod 'rhen Lewis iddo ga'l ysgwyd llaw efo fo"! Charles Owen yn galw arnaf, "Mi welsoch fel roedd yn rhaid i mi osgoi mynd i'r pyllau dwr yna yn dó, a'r dyn gwirion yma yn camliwio pethau er mwyn iddo gael edliw". Fedrwn i ddim llai na chwerthin wrth weld y ddau ffyrnig yng ngyddfau eu gilydd.

Nel gwraig Johnnie Jós Ty'n Gadlas

Fel y cybrwyllais, deawn i gysylltiad a phob máth o bobl yr adeg honno. Gwyddwn am eu harferion, yn ddrwg a da, eu castiau, eu ffaeleddau eu cwmni, rhai y hoffwn, a rhai na hoffwn, rhai y byddwn wrth fy modd o'u gweld, rhai na fyddwn. Y mwafrif yn bobl rhagorol diolch am hynny. Y lleiafrif oedd yn gwneud cadw busnes yn ddibleser. Dynes felly oedd Nel gwraig Johnnie Jós Ty'n Gadlas. Doedd yr un dim yn ei phlesio. Hen swan ddiflas oedd hi, a phob amser yn snwffian ac eisiau pob dim "reit neis". Galwai pobeth yn "w'hen fwyd, w'hen datws, neu w'hen fara". Llusgai wrth wneud ei meddwl i fyny beth i'w gael, a chwynai yn ddibaid. Roedd Nel yn boen i bawb. Dywedodd Johnnie Ty'n Gadlas wrthyf mai cymryd trugaredd arni oedd ei gamgymeriad. Roedd wedi bod yn ei chanlyn pan yn ifanc, ond aeth ef ei hyn i ffwrdd i'r 'Mericia am rai blynyddoedd. Pan ddaeth yn ei ól, roedd yn disgwyl ei gweld wedi priodi, ond daeth rhyw biti ganddo drosti ei gweld wedi ei gadael ac fe'i priododd, ond yn rhy hwyr meddai. "Yn ifanc a gwirion, dyna'r adag i briodi", meddai. "Mi faswn wedi stwytho tipyn arni yr adag honno, ond roedd y cyfnod gwirion wedi ngadal i a hitha yn rhy stiff i'w stwytho"! Prynodd Johnnie dy Rhoslan a'i ail wampio, a phan roedd y lle yn barod iddynt symud iddo, penderfynnodd Nel, na lecia hi mor "hen dy 'na", ac y cai o fynd yno i fyw ei hyn. Bu'n rhaid iddo werthu Rhoslan o'i hachos er llawer anhwylostod iddo ynglyn a'r siop bwtsiar, a phrynu ty arall, sef Pengamfa. Ail wampiodd hwnnw, ac i'r fan honno yr aeth Nel dan rwgnach yn y diwedd.

Wrth edrych yn ól i'r flwyddyn 1932, sylwaf fy mod yn perthyn i oes wahanol iawn ac i amgylchiadau na welwn mohonynt eto. Erbyn heddiw, mae patrwm bywyd wedi newid yn hollol, fel y gwelir yn glir gan rai o'r un oed a mi.

Mary Awstin Jones (nee Prichard)

*cedwid y sillafu a'r acenu fel y'u derbynwyd